

Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 313 – 17 Gorffennaf 2008
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2008.

1. Cam nesaf adolygiad Ofcom o ddarlledu cyhoeddus

Nododd y Cadeirydd bod S4C wedi cyflwyno ymateb i adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

2. Adroddiad Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Adroddiad Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf ac a lansiwyd yn swyddogol ddoe.

3. Adroddiad y Cadeirydd

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld ag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a nododd yn ogystal fod swyddogion yr Eisteddfod yn amlwg yn gwerthfawrogi darpariaeth a chefnogaeth S4C, yn enwedig safle we llangollen.tv

Dymunodd y Cadeirydd yn dda i Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch a phawb sydd â chysylltiad ag S4C fydd yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Esboniodd y Prif Weithredwr bod swyddogion wedi bod yn ystyried targedau presennol is-deitlo S4C.

5. Adroddiad a Chyflwyniad Ymchwil

Cafwyd cyflwyniad ymchwil gan Carys Evans.

6. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad y Pwyllgor Cynnwys
- Adroddiad Monitro Cynllun Corfforaethol
- Adroddiad Monitro Cynllun Gweithredu S4C ar wahaniaethu ar sail anabledd ar gyfer 2008